# Creative Business Wales
# Busnes Creadigol Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**- Summer Newsletter 2010 -** **Welsh version below…**

## Creative Business Wales news...

The Welsh Assembly Government's new policy to transform the business environment in Wales. On Monday 5 July 2010 the Welsh Assembly Government announced plans to transform the way it supports businesses and the Welsh economy. 'Economic Renewal: a new direction' is a vision to make Wales "one of the best places in the world to live, to work and to thrive". **For more information click HERE.**

**Apply now** for financial assistance to attend **MIPCOM 2010** – The Global TV and Film Content Market. For more information and an application form please contact Allison.dowzell@wales-uk.com (copying in Shade.ajayi@wales-uk.com)

Power to the Pixel's Cross-Media Forum in London 12 - 15 October. **More HERE.**

---

## Wales Screen Commission news...

***The Killer Elite***, a feature film based on Sir Ranulph Fienne's book, *The Feather Men*, (starring Jason Statham and Clive Owen) has filmed in South East and Mid Wales, assisted by the Wales Screen Commission… **More information HERE.**

The Commission has also been working on the eagerly anticipated revival of the legendary TV series ***Upstairs Downstairs***, suggesting locations throughout South Wales… **More information HERE.**

***Sherlock*** is another TV drama attracting attention, and one which was partially shot in South Wales. Viewing figures were over 7 million for the first episode... **More information HERE.**

---

## MEDIA Antenna Wales News...

**Upcoming MEDIA deadlines:**

Accreditation is now available to European independent producers at this year's MEDIA Stand at **MIPCOM 2010** in Cannes, France, 4-10 October 2010. **More details HERE.**

First Call for proposals for **MEDIA Mundus**, the European Commission's new international co-operation programme to

support the audiovisual industry, has opened with a fund of €5 million to support activities taking place between 1 Feb 2011 and 31 March 2012. The deadline is 15 October 2010. **More details HERE.**

MEDIA Desk UK, with support from MEDIA Antenna Wales and MEDIA Antenna Scotland, announced the annual set of results of MEDIA funding grants for UK films and companies in 2009. In total, over a hundred UK businesses benefitted from MEDIA funding sharing over £6million (€7,6million) between them in 2009. **More details HERE.**

**The Pixel Market**, 13-14 October 2010, is a first of its kind, two day marketplace showcasing some of the best international cross-media projects to potential financiers and decisions-makers from across the media industries. The Pixel Market is funded by MEDIA and is part of Powel to the Pixel's Cross-Media Forum held in association with the BFI London Film Festival. **More details HERE.**

**The Film Production Finance Market**, 20-21 October 2010, is a MEDIA funded event dedicated to connecting producers with financiers to encourage new film financing relationships with 800 face to face meetings over this two day event. **More details HERE.**

**Dinamo Productions** has become the latest Welsh company to be successful in their application for MEDIA development funding. Their animation project *The Wordles* is an edu-tainment programme aimed at pre-schoolers and were successfully awarded with €53,771. **More details HERE.**

---

## Film Agency for Wales News...

**Media Education Wales** will be delivering a programme of training about using film with young people in Autumn 2010 and Spring 2011. This is a **Film Agency for Wales** project funded by the Welsh Assembly Government. **More details HERE.**

***Submarine***, a Warp Films Production starring Craig Roberts, Paddy Considine, Noah Taylor and Sally Hawkins has been selected for the 35th Toronto International Film Festival (9 - 19th September). Based on a book by Joe Dunthorne (originally from Swansea) the film is written and directed by Richard Ayoade. Mary Burke produced along with Mark Herbert and Andy Stebbing. The film is financed by Film 4, UK Film Council, Film Agency for Wales and the Wales Creative IP Fund, and also received assistance from the Wales Screen Commission.

*Submarine* has also been selected for the London Film Festival alongside ***Patagonia***. Funded by the Film Agency for Wales, Matthew Rhys stars with Nia Roberts in this road movie set in the Welsh colony of Patagonia. The film, is produced by Rebekah Gilbertson – who has worked with Rhys in Dylan Thomas biopic *The Edge of Love* – and veteran producer Oscar Kramer.

---

## Welsh Music Foundation News...

It's WMF's 10 year anniversary and we're working with Wales Millennium Centre to hold a number of events at the iconic building over 10th and 11th September 2010, incorporating industry seminars, a birthday reception, networking and live music. **More information HERE**.

Interested in taking your music overseas? Ahead of international trade missions to Womex, Midem and SXSW 2011, UKTI will host a briefing meeting in Cardiff with WMF. Session includes details of Film and Interactive elements. **More information HERE.**

WMF will be offering export-ready companies based in Wales a grant towards attending **Womex** - the international fair that brings together professionals from the worlds of folk, roots, ethnic and traditional music.

**More information HERE.**

WMF are working alongside Dr Paul Carr at The ATRiuM, University of Glamorgan, examining live music in Wales. **More information HERE.**

---

## Other news...

**Arts & Business Cymru** play a key role in unearthing the next generation of male singers in the heart of South Wales. **For more information click HERE**.

**Skillset** Creative Media Workforce Survey 2010 – responses from WALES needed! If you are an employee or freelancer working in the Creative Media Industries, please take your opportunity to participate as the results are vital in helping us target our investment to where the workforce needs it most. This is critically important for all our investment in Wales. **Click HERE to play your part now**.

**Skillset Academi +** are running courses in September for those working within the Pro Tools environment:

Upgrade to Pro Tools - **For more information click HERE**

Pro Tools Plus - **For more information click HERE**

Bwcibo Cyf's film ***La Casa di Dio*** won Best Documentary UK at the recent Swansea Bay Film Festival, and will be shown at Chagrin Documentary Film Festival in Ohio, and also the International Film Festival Ireland, in Co. Tipperary, on September 8th. **To see the trailer click HERE**.

**Cyfle** has places available on tailored professional short courses for people working in the industry, over the next few months, click **HERE** for further details.

## - Cylchlythyr yr Haf 2010 -

## Newyddion Busnes Creadigol Cymru...

Polisi newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i drawsnewid yr amgylchedd busnes yng Nghymru. Ddydd Llun 5 Gorffennaf 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i drawsnewid y ffordd mae'n cefnogi busnesau a'r economi Gymreig. Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' yn weledigaeth i wneud Cymru yn "un o'r lleoedd gorau yn y byd i fyw, i weithio ac i ffynnu".

**I gael mwy o wybodaeth cliciwch YMA.**

Ymgeisiwch yn awr am gymorth ariannol i fynychu **MIPCOM 2010** - Y Farchnad Fyd-eang o ran Cynnwys Teledu a Ffilm. I gael mwy o wybodaeth a ffurflen gais cysylltwch â Allison.dowzell@wales-uk.com (gan anfon copi at Shade.ajayi@wales-uk.com)

Fforwm Traws-gyfryngol 'Power to the Pixel' yn Llundain 12-15 Hydref. **Mwy o wybodaeth YMA.**

---

## Newyddion Comisiwn Sgrin Cymru...

Cafodd ***The Killer Elite***, ffilm nodwedd yn seiliedig ar lyfr Syr Ranulph Fienne, *The Feather Men*, (gyda Jason Statham a Clive Owen) ei ffilmio yn Ne Ddwyrain a Chanolbarth Cymru, gyda chymorth Comisiwn Sgrin Cymru... **Mwy o wybodaeth YMA.**

Mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio ar yr adfywiad y bu llawer o ddisgwyl amdano o'r gyfres deledu enwog ***Upstairs Downstairs***, gan awgrymu lleoliadau drwy bob rhan o Dde Cymru... **Mwy o wybodaeth YMA.**

Mae ***Sherlock*** yn ddrama deledu arall sy'n tynnu sylw, ac un a gafodd ei saethu'n rhannol yn Ne Cymru. Roedd y ffigurau gwylio dros 7 miliwn ar gyfer y bennod gyntaf... **Mwy o wybodaeth YMA.**

---

## Newyddion MEDIA Antenna Wales...

**Dyddiadau cau MEDIA yn y dyfodol agos:**

Mae achrediad bellach ar gael i gynhyrchwyr annibynnol Ewropeaidd ar Stondin MEDIA eleni yn **MIPCOM 2010** yn Cannes, Ffrainc 4-10 Hydref 2010. **Mwy o fanylion YMA.**

Mae'r Alwad Gyntaf am argymhellion ar gyfer **MEDIA Mundus**, rhaglen cydweithredu rhyngwladol newydd y Comisiwn Ewropeaidd i gefnogi'r diwydiant clyweled, wedi agor gyda chronfa o €5 miliwn i gefnogi

gweithgareddau a gynhelir rhwng 1 Chwefror 2011 a 31 Mawrth 2012. Y dyddiad cau yw 15 Hydref 2010.
**Mwy o fanylion YMA.**

Cyhoeddodd MEDIA Desk UK gyda chefnogaeth gan MEDIA Antenna Wales a MEDIA Antenna Scotland, y set flynyddol o ganlyniadau grantiau cyllido MEDIA ar gyfer ffilmiau a chwmnïau yn y DU yn 2009. Elwodd dros gant o fusnesau yn y DU i gyd o gyllid MEDIA gan rannu dros £6 miliwn (€7,6miliwn) rhyngddynt yn 2009.
**Mwy o fanylion YMA.**

**The Pixel Market**, 13-14 Hydref 2010, yw'r farchnad gyntaf o'i bath, a gynhelir dros ddau ddiwrnod, sy'n arddangos rhai o'r prosiectau traws-gyfryngol rhyngwladol gorau i arianwyr a llunwyr penderfyniadau posibl ar draws diwydiannau'r cyfryngau. Cyllidir The Pixel Market gan MEDIA ac mae'n rhan o Fforwm Traws-gyfryngol Power to the Pixel a gynhelir mewn cydweithrediad gyda Gŵyl Ffilmiau BFI Llundain.
**Mwy o fanylion YMA.**

Mae **The Film Production Finance Market**, 20-21 Hydref 2010, yn ddigwyddiad a gyllidir gan MEDIA sy'n anelu at gysylltu cynhyrchwyr gydag arianwyr i annog cysylltiadau newydd o ran cyllido ffilmiau gyda 800 o gyfarfodydd wyneb yn wyneb dros y digwyddiad dau ddiwrnod hwn.
**Mwy o fanylion YMA.**

**Dinamo Productions** yw'r cwmni Cymreig diweddaraf i lwyddo yn eu cais am gyllid datblygu MEDIA. Mae eu prosiect animeiddio *The Wordles* yn rhaglen addysgol sydd wedi ei hanelu at blant cyn-ysgol a dyfarnwyd €53,771 iddynt.
**Mwy o fanylion YMA.**

---

## Newyddion Asiantaeth Ffilm Cymru...

Bydd **Addysg Cyfryngau Cymru** yn cyflwyno rhaglen o hyfforddiant am ddefnyddio ffilm gyda phobl ifanc yn Hydref 2010 a Gwanwyn 2011. Mae hwn yn un o brosiectau **Asiantaeth Ffilm Cymru** a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
**Mwy o fanylion YMA.**

Dewiswyd ***Submarine***, cynhyrchiad gan Warp Films gyda Craig Roberts, Paddy Considine, Noah Taylor a Sally Hawkins yn ymddangos ynddi ar gyfer 35ed Gŵyl Ffilm Ryngwladol Toronto (9-19 Medi). Mae'r ffilm, a seilir ar lyfr gan Joe Dunthorne (o Abertawe yn wreiddiol) wedi ei hysgrifennu a'i chyfarwyddo gan Richard Ayoade. Cynhyrchwyd y ffilm gan Mary Burke gyda Mark Herbert ac Andy Stebbing. Cyllidir y ffilm gan Film 4, Cyngor Ffilmiau'r DU, Asiantaeth Ffilm Cymru a Chronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru. Derbyniodd gymorth hefyd gan Gomisiwn Sgrin Cymru.

Dewiswyd *Submarine* hefyd ar gyfer Gŵyl Ffilmiau Llundain ar y cyd â ***Patagonia.*** Gyda chyllid gan Asiantaeth Ffilm Cymru, mae Matthew Rhys yn actio yn y ffilm hon gyda Nia Roberts yn y ffilm ffordd hon sydd wedi ei gosod yn y wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Cynhyrchir y ffilm gan Rebekah Gilbertson – sydd wedi gweithio gyda Rhys yn y ffilm am fywyd Dylan Thomas *The Edge of Love* - a'r cynhyrchwr profiadol Oscar Kramer.

---

## Newyddion y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig...

Mae Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed ac rydym yn gweithio gyda Chanolfan Mileniwm Cymru i gynnal nifer o ddigwyddiadau yn yr adeilad eiconig yn ystod 10 ac 11 Medi 2010. Bydd y digwyddiadau yn cynnwys seminarau yn ymwneud â'r diwydiant, derbyniad pen-blwydd, rhwydweithio a cherddoriaeth fyw. **Mwy o wybodaeth YMA.**

A oes gennych ddiddordeb mewn mynd â'ch cerddoriaeth dramor? Cyn cynnal y teithiau masnach rhyngwladol i Womex, Midem a SXSW 2011, bydd UKTI yn cynnal cyfarfod briffio yng Nghaerdydd gyda'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig. Mae sesiwn yn cynnwys manylion am Ffilm ac elfennau rhyngweithiol.
**Mwy o wybodaeth YMA.**

Bydd Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn cynnig grant i gwmnïau sy'n barod i allforio ac a leolir yng Nghymru, tuag at fynychu **Womex**, y ffair ryngwladol sy'n dwyn pobl broffesiynol at ei gilydd o fydoedd cerddoriaeth werin, gwreiddiau, ethnig a thraddodiadol.
**Mwy o wybodaeth YMA.**

Mae'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn gweithio gyda Dr Paul Carr yn ATRiuM, Prifysgol Morgannwg, gan edrych ar gerddoriaeth fyw yng Nghymru.
**Mwy o wybodaeth YMA.**

---

## Newyddion arall...

Mae **Celfyddydau a Busnes Cymru** yn chwarae rôl allweddol mewn darganfod y genhedlaeth nesaf o gantorion gwrywaidd yng nghalon De Cymru. **I gael mwy o wybodaeth cliciwch YMA.**

Arolwg Gweithlu'r Cyfryngau Creadigol **Skillset** 2010 – mae angen ymatebion o GYMRU! Os ydych chi'n weithiwr cyflogedig neu yn gweithio ar eich liwt eich hun yn y Diwydiannau Cyfryngau Creadigol, manteisiwch ar eich cyfle i gymryd rhan oherwydd mae'r canlyniadau yn hanfodol i'n helpu i dargedu ein buddsoddiad at ble mae ar y gweithlu ei angen fwyaf. Mae hyn yn hynod bwysig i'n holl fuddsoddiad yng Nghymru.
**Cliciwch YMA i chwarae eich rhan yn awr.**

Mae **Skillset Academi +** yn cynnal cyrsiau ym mis Medi i'r rheiny sy'n gweithio o fewn yr amgylchedd Pro Tools:

Diweddarwch i Pro Tools - **I gael mwy o wybodaeth cliciwch YMA**

Pro Tools Plus - **I gael mwy o wybodaeth cliciwch YMA**

Enillodd ffilm Bwcibo Cyf **La Casa di Dio** Ffilm Ddogfennol Orau'r DU yng Ngŵyl Ffilmiau ddiweddar Bae Abertawe. Fe'i dangosir yng Ngŵyl Ffilmiau Dogfennol Chagrin yn Ohio, a hefyd yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Iwerddon yn Co. Tipperary ar Fedi 8fed. **I weld y rhaglun cliciwch YMA.**

Mae gan **Cyfle** leoedd ar gael ar gyrsiau byr proffesiynol wedi eu teilwrio i bobl sy'n gweithio yn y diwydiant, dros yr ychydig fisoedd nesaf. Cliciwch **YMA** i gael manylion pellach.